24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Ian Bancroft
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Neuadd y Dref
Wrecsam
LL11 1AY

**Cyfeirnod:** 3197A2022

**Dyddiad Cyhoeddi:** Ionawr 2023

Annwyl Ian

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio

Er bod y Cyngor yn gwneud cynnydd o ran ei uchelgais o ddatgarboneiddio, mae angen rhagor o waith i gadarnhau ei ôl troed carbon, i ddatblygu a blaenoriaethu camau gweithredu, a nodi adnoddau i gyflawni hyn.

## Cyd-destun

Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol barodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030, a oedd yn edrych ar gamau datgarboneiddio mewn 48 o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys pob cyngor. Canfu'r adroddiad hwn ansicrwydd y bydd yr uchelgais ar y cyd ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030 yn cael ei gyflawni. Nododd ein gwaith rwystrau cyffredin sylweddol rhag cynnydd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd i gyflawni'r uchelgais ar y cyd. Canfuom er bod cyrff cyhoeddus yn dangos ymrwymiad i leihau carbon, mae'n rhaid iddyn nhw bellach gynyddu eu gweithgareddau yn sylweddol, cynyddu cydweithio a gosod datgarboneiddio wrth wraidd eu gweithrediadau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd.

Yn yr adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud y pum galwad canlynol am gamau gweithredu gan gyrff cyhoeddus:

- cryfhau eich arweinyddiaeth a dangos eich cyfrifoldeb cyfunol drwy gydweithio'n effeithiol;

- egluro eich cyfeiriad strategol a chyflymu’r ffordd yr ydych yn gweithredu;
- mynd i'r afael â'r cyllid sydd ei angen arnoch;
- gwybod beth yw eich bylchau sgiliau a chynyddu eich capasiti; a
- gwella ansawdd a monitro data i gefnogi eich penderfyniadau.

Mae'r paragraffau canlynol yn nodi canfyddiadau ein gwaith archwilio lleol yng nghynllun gweithredu datgarboneiddio'r Cyngor. Mae'r canfyddiadau hyn yng nghyd-destun ehangach adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2022 sy'n galw am weithredu cyflymach ac arweinyddiaeth gadarnach ledled Cymru wrth leihau allyriadau carbon.

## Yr hyn a wnaethom:

Gwnaethom gynnal asesiad o drefniadau'r Cyngor i ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio. Gwnaethom gasglu tystiolaeth drwy gyfweliad, adolygu dogfennau ac ymatebion i Alwad am Dystiolaeth y Cyngor ar gyfer yr Adolygiad Llinell Sylfaen o Ddatgarboneiddio.

## Yr hyn a ganfuom:

Yn 2019 cyhoeddodd y Cyngor Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ac mae wedi amlinellu ei weledigaeth ynghylch sut y mae'n bwriadu dod yn Gyngor carbon niwtral erbyn 2030 yn ei Gynllun Datgarboneiddio presennol ar gyfer 2021-2030. Mae'r Cyngor yn nodi datgarboneiddio ar lefel strategol drwy ei gynnwys yn y risg gorfforaethol sy'n cwmpasu'r amgylchedd yn fwy cyffredinol. Mae'r pwyslais strategol hwn wedi'i gryfhau ymhellach drwy ddiwygio’r Amcan Llesiant blaenorol a oedd yn ymwneud â’r amgylchedd ac a oedd yn cwmpasu datgarboneiddio, i ganolbwyntio'n benodol ar 'Ddatblygu a Datgarboneiddio ein Hamgylchedd'.

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd ac mae'r wybodaeth hon wedi llywio ei Gynllun datgarboneiddio. Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith er mwyn deall ei ôl troed allyriadau. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal archwiliad i ddeall y potensial llawn ar gyfer datgarboneiddio o fewn ei sylfaen asedau ac ail-werthuso ei ddata ôl troed. Ar ôl ei gwblhau dylai’r data wedi’i wella helpu i alluogi'r Cyngor i ddeall yn well y bwlch rhwng y gweithgaredd presennol a'i darged sero net ar gyfer 2030, a pha un a fydd ei gamau gweithredu a gynlluniwyd yn ei alluogi i gyflawni Sero Net.

Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu i gefnogi’r gwaith o gyflawni ei Gynllun Datgarboneiddio. Mae Bwrdd Blaenoriaeth Cynllun y Cyngor a gefnogir gan

weithgor trawsbleidiol yn goruchwylio’r gwaith o gyflawni’r Cynllun. Mae'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a'r Amgylchedd hefyd wedi craffu ar y cynllun gyda diweddariadau ar gynnydd yn cael eu hadrodd i'r pwyllgor hwn dair gwaith y flwyddyn. Mae'r Cyngor yn datblygu offeryn blaenoriaethu datgarboneiddio i gefnogi ei benderfyniadau ynghylch pa brosiectau i fuddsoddi ynddynt a phryd. Er bod yr offeryn yn ystyried sut mae prosiectau'n cyfrannu at y nodau Llesiant Cenedlaethol, gallai'r Cyngor gryfhau'r offeryn ymhellach drwy adlewyrchu sut mae'r penderfyniad wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ystyried y pum ffordd o weithio.

Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gydag awdurdodau eraill a datblygu adnodd asesu effaith carbon penodol ac mae wrthi'n integreiddio hyn i'w broses asesu effaith eang y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi adrodd yn gyhoeddus am y cynnydd y mae'n ei wneud o ran datgarboneiddio yn ei Ffocws Blynyddol ar Berfformiad yn 2020-21. Ond mae'n ymwybodol bod angen iddo ddatblygu a monitro cyfres ehangach o fetrigau perfformiad sy'n gysylltiedig â Charbon.

Mae’r Cyngor wedi ymgysylltu â dinasyddion, aelodau a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu ei Gynllun Datgarboneiddio. Mae'n cynnwys cynnig hyfforddiant llythrennedd carbon i'w holl Aelodau ac Uwch swyddogion. Yn ogystal, mae'r Cyngor yn ceisio gweithio gyda dwy gymuned, er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'r ffordd orau o gynnwys cymunedau, a chyfrannu at leihau allyriadau carbon. Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid yn y 3ydd sector i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth o'r gymuned. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella ei ddull gweithredu i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth er mwyn ei helpu i gyflawni ei dargedau sero net.

Mae sawl enghraifft lle mae'r Cyngor, yn cydweithio ag eraill i gyflawni ei uchelgais o ran datgarboneiddio, megis:

- archwilio ei holl asedau i nodi tir sy'n eiddo cyhoeddus y gellir ei wella a'i gyfoethogi drwy blannu a chefnogi bioamrywiaeth;
- creu addewid Coed a Choetir, a dyfarnu cyllid gan Coed Cadw yn llwyddiannus i greu ardaloedd newydd o goetir ar draws y sir; a’r
- gwaith gyda phartneriaid o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, o ran datblygu a darparu Strategaeth Ynni Gogledd Cymru, Systemau Ynni Lleol Clyfar a phrosiect megis o gwmpas creu Canolfan Hydrogen Glannau Dyfrdwy.

Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor barhau i gydweithio'n agos ag Awdurdodau cyfagos a rhanddeiliaid eraill i nodi arferion gorau a phrosiectau ar y cyd i gyflawni eu targedau sero net.

Yn hanesyddol, mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn sawl menter ddatgarboneiddio ac wedi nodi rhai adnoddau i gyflawni o’i gymharu â’i darged sero net. Nid yw'r

Cyngor wedi nodi'r holl adnoddau sydd eu hangen, yn enwedig mewn cysylltiad ag arian cyfalaf. Mae perygl sylweddol felly na fydd y Cyngor yn cyrraedd y targed allyriadau sero net erbyn 2030. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor adnodd penodol wedi'i neilltuo ar gyfer datgarboneiddio o'r enw "Cronfa wrth gefn Allyriadau Carbon" a defnyddir £661,000 ohoni i roi hwb i brif brosiectau a chynnal astudiaethau dichonoldeb er mwyn hwyluso unrhyw gyllid grant posibl ar gyfer prosiectau Carbon. Mae'r Cyngor hefyd yn ddiweddar wedi penodi Rheolwr Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio. Fodd bynnag, mae angen i wasanaethau ymgymryd â gwaith ychwanegol i ddatblygu’r dadansoddiad o gost a budd ac effeithiau carbon ymyriadau arfaethedig.

## Argymhellion

### Arddangosyn 1 argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn

| **Argymhellion** |
| --- |
| A1 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau lefel uchel yn ei gynllun datgarboneiddio:<br>- wedi’u blaenoriaethu yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys effaith carbon ac ariannol;<br>- yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf; ac<br>- wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau busnes. |
| A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu cyfres gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd ar y cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio. |

Yn gywir

Alan Hughes

Arweinydd Archwilio